

Trefniadau Arbed Costau

Rhestr wirio ar gyfer Aelodau Byrddau'r GIG

Mae'r rhestr wirio hon yn nodi rhai o'r cwestiynau allweddol y dylai Aelodau Byrddau'r GIG fod yn eu gofyn i gael sicrwydd bod gan eu sefydliadau drefniadau effeithiol ar waith i gefnogi'r gwaith o nodi, cyflawni a monitro arbed costau cynaliadwy.



Beth yw'r ffactorau sy'n ysgogi costau'r sefydliad?

Dylai Aelodau'r Bwrdd geisio cael trosolwg clir o'r amrywiaeth lawn o ffactorau cyflog a ffactorau nad ydynt yn ymwneud â chyflog sy'n ysgogi costau, er mwyn deall graddfa'r heriau ariannol a'r cyfleoedd sy'n wynebu'r sefydliad.

Dylai Aelodau'r Bwrdd ddefnyddio'r wybodaeth hon i lywio trafodaethau ar dargedau arbed costau i gyflawni cynaliadwyedd ariannol yn y tymor byr, canolig a hir.



A yw'r sefydliad yn dewis y cyfleoedd cywir i arbed costau yn y ffordd gywir?

Dylai Aelodau'r Bwrdd geisio sicrwydd bod gan y sefydliad ddull priodol ac effeithiol o nodi a dewis cyfleoedd i arbed costau yn y ffordd fwyaf priodol ac effeithiol.

Dylai Aelodau'r Bwrdd ofyn a yw'r sefydliad wedi nodi a dewis cyfleoedd i arbed costau sydd:

- ✓ yn cael eu llywio'n briodol gan ddata a deallusrwydd perthnasol, gan gynnwys data meincnodi a barn staff, defnyddwyr gwasanaeth, a rhanddeiliaid eraill, ac yn ymatebol i gyfleoedd a blaenoriaethau cenedlaethol / ledled Cymru;
- ✓ yn realistig ac yn gyraeddadwy;
- ✓ yn cydbwysu arbedion untro afreolaidd gyda chyfleoedd ar gyfer arbedion mwy cynaliadwy;
- ✓ yn canolbwyntio ar y tymor canolig i'r tymor hwy, yn ogystal â'r tymor byr; ac
- ✓ ar raddfa briodol ar draws pob rhan o'r sefydliad (yn hytrach na bod canran safonol yn cael ei defnyddio ar draws pob rhan).

Dylai aelodau'r bwrdd hefyd geisio sicrwydd bod y sefydliad wedi asesu'n briodol effaith ei gyfleoedd i arbed costau ar:

- (a) nodau ac amcanion strategol y sefydliad;
- (b) ansawdd a diogelwch gwasanaethau; a
- (c) targedau a mesurau perfformiad.



A yw'r sefydliad yn rheoli cyflawni ei gyfleoedd i arbed costau'n dda?

Dylai Aelodau'r Bwrdd geisio sicrwydd bod gan y sefydliad drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer cyflawni ei gyfleoedd i arbed costau cymeradwy.

Dylai aelodau'r bwrdd ofyn a oes cynlluniau cyflawni clir ar waith sy'n nodi:

- ✓ lefel yr arbedion ariannol a fydd yn cael eu cyflawni a sut y byddant yn cael eu mesur;
- ✓ yr effaith a ragwelir ar nodau ac amcanion, ansawdd a diogelwch gwasanaethau, a mesurau a thargedau perfformiad y sefydliad;
- ✓ y cerrig milltir cyflawni allweddol;
- ✓ y risgiau, y rheolaethau a'r camau lliniaru allweddol;
- ✓ a'r uwch swyddog(ion) sy'n gyfrifol am ei gyflawni ac yn atebol amdano.

Yn ogystal, dylai Aelodau'r Bwrdd geisio sicrwydd bod:

- ✓ gan y sefydliad drefniadau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli cynlluniau arbed costau trawsbynciol;
- ✓ y sefydliad yn cyfathrebu ei gynlluniau arbed costau'n briodol i staff, defnyddwyr gwasanaeth, a rhanddeiliaid eraill; a
- ✓ gan y sefydliad y sgiliau a'r capasiti angenrheidiol i gyflawni cyfleoedd arbed costau y cytunwyd arnynt (neu yn cymryd camau priodol i sicrhau'r sgiliau a'r capasiti sydd eu hangen arno).



A yw'r sefydliad yn monitro, tracio ac adrodd ar gyflwyno cynlluniau arbed costau'n effeithiol?

Dylai Aelodau'r Bwrdd geisio sicrwydd bod gan y sefydliad ddull effeithiol o oruchwylio cyflawni ei gynlluniau arbed costau y cytunwyd arno.

Dylai aelodau'r bwrdd ofyn a oes trefniadau gweithredol effeithiol ar waith ar gyfer:

- ✓ monitro'r broses o gyflawni sy'n adlewyrchu'r amserlenni a'r risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni cynlluniau a'r targed arbed costau cyffredinol;
- ✓ nodi, rheoli a lliniaru risgiau cyflenwi;
- ✓ cymryd camau lle nad yw camau arbed costau ar y trywydd iawn, neu eu bod yn cael effaith andwyol ar strategaeth, ansawdd a diogelwch, a / neu berfformiad; a
- ✓ gwerthuso a gwella trefniadau arbed costau.

Er mwyn cynnal goruchwyliaeth effeithiol, dylai Aelodau'r Bwrdd sicrhau eu bod yn cael adroddiadau cyllid wedi'u haddasu'n briodol sy'n adlewyrchu'n gywir gynnydd y sefydliad wrth gyflawni'r arbedion costau y cytunwyd arnynt.